OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2894 (Cy. 295)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Tachwedd 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Tachwedd 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i ddehongli unrhyw gyfeiriadau at offerynnau'r UE yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2014.

### Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(**3**), wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 17, mewnosoder—

(**1**) O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(**3**) O.S. 2006/3342 (Cy. 303), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 175) ac O.S. 2010/1807 (Cy. 175).

"**18.** Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)(**4**).

**19.** Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin(**5**).

**20.** Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**6**).

**21.** Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diwygio Atodiad X i'r Rheoliad hwnnw(**7**).

**22.** Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig a'r amodau ar gyfer gwrthod taliadau neu eu tynnu yn ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth ar gyfer datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**8**).

**23.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**9**).

**24.** Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 807/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a chyflwyno darpariaethau trosiannol(**10**).

**25.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 808/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ar gefnogi datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)(**11**).

**26.** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**12**)."

(**4**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 487.
(**5**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 549.
(**6**) OJ Rhif L 347, 20.12.2014, t. 608.
(**7**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 1.
(**8**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 48.
(**9**) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 74.
(**10**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 1.
(**11**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 18.
(**12**) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 69.

*Rebecca Evans*
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

4 Tachwedd 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006, O.S. 2006/3342 (Cy. 303). Mae'r diwygiadau yn diweddaru'r rhestr o ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn O.S. 2006/3342 (Cy. 303) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 251) ac O.S. 2010/1807 (Cy. 175).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn am fod y diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn ymwneud â threfniadau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer apelau.